# Dyma Beth Ddwedoch Chi...

## Gerraint Jones-Griffiths

### Llysgennad Arweiniol,
### ‘Engage to Change’, Pobl yn Gyntaf Cymru

Helo, fy enw i yw Gerraint Jones-Griffiths, rwy’n 24 oed, rwy’n awtistig a fi yw’r Llysgennad Arweiniol ar gyfer y prosiect Engage to Change.

Ym mis Ebrill 2019, wnes i gyd-gadeirio Cynhadledd Genedlaethol gyntaf Awtistiaeth Cymru yn Stadiwm Liberty yn Abertawe ar gyfer y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.

Yn dilyn hyn, cwblheais i leoliad gwaith gyda’r Tîm ym mis Hydref 2019, lle ces i lawer iawn o gefnogaeth. Roedd y dyletswyddau wnes i’n cynnwys gweithio’n agos â Ieuan a Holly ar gyfryngau cymdeithasol y Tîm a rhai pethau gweinyddol, a hefyd wnes i weithio’n agos â Frances a chael gwell dealltwriaeth o’r ffordd mae Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn gweithio yng Nghymru.

Ces i gyfle i gyflwyno mewn diwrnod hyfforddiant sefydlu i’r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, a’r adborth o’m cyflwyniad oedd bod clywed fy stori i’n rhan werthfawr iawn o’r hyfforddiant. Wedyn es i ymlaen i gwblhau ffilm gyda Holly a Ieuan a gafodd ei chyhoeddi ym mis Chwefror 2020 o’r enw “Dod i Adnabod Gerraint”. Nod y ffilm yw hysbysu ac ysbrydoli pobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth yn ddiweddar, ond hefyd i addysgu a chodi lefelau dealltwriaeth ymysg y cyhoedd yn gyffredinol am awtistiaeth.

Mae’r gwaith rwy’ wedi’i wneud gyda’r Tîm wedi atgyfnerthu’r ymgysylltu a’r berthynas waith rhwng y Tîm a Phobl yn Gyntaf Cymru, a’r prosiect Engage to Change.

Rwy’n defnyddio gwefan ASDinfoWales ac mae’n llawn gwybodaeth ac yn hawdd ffeindio’ch ffordd rownd. Yr unig broblem sydd gen i gyda’r wefan bresennol yw nad oes modd ei gweld ar ddyfais ffôn symudol, llechen neu iPad, ond sdim dwywaith yn fy meddwl i bydd y wefan newydd yn unioni hyn a bydd hyd yn oed yn fwy hygyrch ac yn haws ei defnyddio. Diolch.